

Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Treforys

Ward/ Adran: Ward M, Ward Oakwood a'r Uned Asesu Bediatrig (Gwasanaethau Plant)

Dyddiad yr arolygiad: 9 a 10 Medi 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
11	Dylai'r bwrdd iechyd fynd ymlaen gyda'i strategaeth i ddatblygu wardiau'r plant a'r uned asesu, a throsglwyddo'r strategaeth i'r staff sy'n gweithio yn yr ardaloedd hyn. (Safonau Iechyd a Gofal, Safon 6.2)	Nodi ar bapur y model gwasanaeth arfaethedig. Gweithwyr proffesiynol allweddol i gynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn parhau i weithio tuag at roi'r model gwasanaeth ar waith. Eisoes wedi ymweld â'r safle.	Bwrdd Iechyd Cyfarwyddwr Cynllunio	Adolygiad Ebrill 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Parhau i'w trafod yn ystod cyfarfodydd yr uwch-reolwyr/safle a'r cyfarfodydd briffio tîm.		
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol				
15	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried p'un a oes angen cymryd camau gweithredu eraill er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth staff o'r datrysiadau diogelwch cleifion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'u maes arfer clinigol. (Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.1)	Y Pennaeth Nyrsio i drosglwyddo gwybodaeth i'r staff. Trafod mewn cyfarfodydd prif nyrsys / ward / risg / Ansawdd a Safonau. Prif nyrsys i osod gwybodaeth yn y wardiau. Darparu newyddlen bob tri mis. Angen adolygu'r trefniadau presennol a sicrhau bod y staff nyrsio arwain yn cael eu hysbysu ynglŷn â hyn yn ystod archwiliadau wythnosol ac archwiliadau Pyramid.	Cyfarwyddwr Nyrsys Uned / Pennaeth Nyrsio	Chwefror 2016
17	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod staff yn glynu wrth bolisi'r bwrdd iechyd o ran cofnodi cyffuriau a reolir pan ddefnyddir y rhain yn yr ardal glinigol. (Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.6)	Y Pennaeth Nyrsio Dros Dro wedi anfon neges e-bost at bob adran ynglŷn â chofnodi rhoi oromorffin. Gofynnir i'r staff gofnodi faint sydd ar ôl yn y botel ar ôl ei defnyddio. Y Pennaeth Nyrsio i gynnal archwiliad dirybudd ar hap ar ddechrau mis Chwefror er mwyn sicrhau cydymffurfio. Cynnal archwiliadau rheolaidd bob tri mis gyda	Cyfarwyddwr Nyrsys Uned / Pennaeth Nyrsio	Chwefror 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Fferylllydd yr Uned/Ward.		
21	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol gofal iechyd (gan gynnwys meddygon, nyrsys a bydwagedd) yn cadw cofnodion cleifion yn unol â safonau proffesiynol cyfredol ar gyfer cadw cofnodion.</p> <p>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.5)</p>	<p>Llythyr oddi wrth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i gael ei anfon at bob aelod o'r staff meddygol yn eu hatgoffa am y safonau o ran cadw cofnodion, a'r angen i bob dogfen fod yn ddarllenadwy. Y staff nyrsio i gynnal archwiliadau blynyddol o ran cadw cofnodion.</p> <p>Y problemau o ran cadw cofnodion i gael eu trafod gyda'r holl staff nyrsio yn ystod dyddiau datblygu sgiliau gorfodol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaethau / Cyfarwyddwr Clinigol / Cyfarwyddwr Nyrsys Uned</p>	<p>Chwefror 2016</p>
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
	Ni chanfuwyd dim yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Singleton

Ward/ Adran: Uned Babanod Newydd-anedig a Ward 19 (Mamolaeth)

Dyddiad yr arolygiad: 9 a 10 Medi 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
15	<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried p'un a oes angen cymryd camau gweithredu eraill er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth staff o'r datrysiadau diogelwch cleifion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'u maes arfer clinigol.</p> <p>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.1)</p>	<p>Mae amrywiaeth o ddulliau trosglwyddo gwybodaeth o ran hysbysiadau diogelwch ar waith ar hyn o bryd. Mae pob aelod o'r staff â chyfrifon e-bost, anfonir gwybodaeth at y prif nyrsys, gosodir hysbysiadau diogelwch yn y manau clinigol a chânt eu trafod yn ystod trosglwyddiadau sifft, ac mae'r gwasanaethau mamolaeth yn cael newyddlen risg bob tri mis. Cynllunio i brofi ymwybyddiaeth staff o'r hysbysiadau diogelwch presennol a'r newyddlen yn rhan o'r archwiliadau sicrhau ansawdd misol ar y ward.</p>	<p>Bydwraig Arweiniol Bydwraig Risg a Rheolwr Llywodraethu</p>	<p>Cwblhawyd</p>
17	<p>Dylai'r bwrdd iechyd archwilio ffyrdd o wella ansawdd a chyflwyniad bwyd ar y ward mamolaeth.</p> <p>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.5)</p>	<p>Rhoddyd adborth i'r adran Gwasanaethau Gwesty - oherwydd bod yr uned famolaeth yn bell oddi wrth brif bloc yr ysbyty, mae gwasanaeth bwyd wedi'i goginio a'i rewi ar waith. Atgoffwyd y staff gwesty o bwysigrwydd cyflwyno bwyd yn dda. Mae aelod newydd o staff gwesty ar Ward 19.</p>	<p>Bydwraig Arweiniol</p>	<p>Cwblhawyd</p>
17	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod staff yn glynu wrth bolisi'r bwrdd iechyd o ran cofnodi cyffuriau a reolir pan ddefnyddir y rhain yn yr ardal glinigol.</p>	<p>Mae'r staff wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y polisi cyffuriau rheoledig yn ystod y dyddiau hyfforddiant proffesiynol. Cynhaliwyd archwiliadau ynglŷn â rhoi cyffuriau rheoledig ar y</p>	<p>Rheolwr Intrapartwm Arweiniol a Goruchwylydd</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.6)	ward esgor yn 2015.	Bydwragedd	
21	Rhaid i'r bwrdd Iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol gofal Iechyd (gan gynnwys meddygon, nyrsys a bydwragedd) yn cadw cofnodion cleifion yn unol â safonau proffesiynol cyfredol ar gyfer cadw cofnodion. (Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.5)	Atgoffodd y Cyfarwyddwr Clinigol y staff meddygol ei bod yn ofynnol i gadw cofnodion meddygol, ac i sicrhau bod y cofnodion yn ddarllenadwy. Mae'r gwasanaethau bydwreigiaeth yn cynnal archwiliadau o'r cofnodion yn yr adran famolaeth – dwy set i bob bydwraig yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan Gronfa Risg Cymru.	Cyfarwyddwr Clinigol Goruchwylydd Bydwragedd a'r holl staff bydwreigiaeth	Cwblhawyd 31/01/2015
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
	Ni chanfuwyd dim yn ystod yr arolygiad hwn.			

Cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras): Jane Phillips

Teitl: Pennaeth Nyrso a Bydwreigiaeth Dros Dro

Dyddiad: derbyniwyd 20 Ionawr 2016]

Enw (llythrennau bras): Eirlys Thomas

Teitl: Pennaeth Gwasanaethau Newyddenedigol a Nyrsio Plant

Dyddiad: [derbyniwyd 20 Ionawr 2016]